# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

**2017 dccc 2**

**RHAN 4**

TRINIAETHAU ARBENNIG

*Gorfodi*

PROSPECTIVE

## 92 Eiddo a gyfeddir: digolledu

(1) Caiff person ("P") a chanddo fuddiant mewn unrhyw beth y mae swyddog awdurdodedig i awdurdod lleol wedi cymryd meddiant ohono o dan adran 88(1)(c) ("eiddo a gyfeddir") wneud cais drwy gŵyn i unrhyw lys ynadon i gael ei ddigolledu.

(2) Mae is-adran (3) yn gymwys os yw'r llys, ar gais o dan yr adran hon, wedi ei fodloni—

(a) bod P wedi dioddef colled neu ddifrod oherwydd bod y swyddog awdurdodedig wedi cymryd meddiant o'r eiddo a gyfeddir, neu ei gadw, o dan amgylchiadau pan nad oedd yn angenrheidiol gwneud hynny at ddiben arfer swyddogaethau'r awdurdod lleol o dan y Rhan hon neu yn rhinwedd y Rhan hon, a

(b) na ellir priodoli'r golled neu'r difrod i esgeulustod neu ddiffygP.

(3) Caiff y llys orchymyn i'r awdurdod lleol ddigolledu P.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 92 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 126(2)**

**Statws**
Mae’r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Adran 92 yn gyfredol gyda’r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 16 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– specified provision(s) amendment to earlier commencing S.I. 2017/949, art. 3 by S.I. 2017/967 art. 2